# THOMAS, EZEKIEL (1818 - 1893), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac awdur;

**Enw:** Ezekiel Thomas
**Dyddiad geni:** 1818
**Dyddiad marw:** 1893
**Rhiant:** Catherine Thomas
**Rhiant:** Morgan Thomas
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac awdur;
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 1818, mab Morgan a Catherine Thomas, Pwll-mawr, Llansamled, Morgannwg. Prentisiwyd ef yn saer maen, ond dechreuodd bregethu yn ieuanc yng nghapel y Cwm, Llansamled. Ordeiniwyd ef yn sasiwn y Bont-faen, 1857, ond ni bu â gofal eglwys erioed. Cyfrifid ef yn feddyliwr praff, ac ymddiddorai mewn pynciau allan o'r cyffredin. Ei lyfr cyntaf oedd *Daeareg Parth Gorllewinol Morganwg* (Cwmafan, 1875), a dilynwyd hwnnw gan *Human Harmony* (Cwmafan, 1877) - traethawd ar berthynas dyn â Duw, y genedl a'r Eglwys. Cyhoeddodd *Sylwadau ar yr Epistol at yr Hebreaid* (Hirwaun) yn 1881; *Cyfiawnhad trwy Ffydd* (Abertawe) yn 1882; ac *Adolygiad ar Farn y Tri Doctor* (Treforus) yn 1890 - yr olaf yn draethawd dadleuol ynghylch awduraeth yr epistol at yr Hebreaid. Bu farw 12 Mawrth 1893, a'i gladdu ym mynwent capel y Cwm.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Y Cylchgrawn*, 1893, 142

*The Diary of the Calvinistic Methodists*, 1894, 230

W. Samlet Williams, *Hanes a Hynafiaethau Llansamlet (History & antiquities of Llansamlet)* (Dolgellau 1908), 27, 40

J. J. Morgan, *A Welais ac a Glywais* (Wyddgrug 1948), i, 159

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748829

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu